CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y Cyfarfod:	**21 Ionawr 2025**
Teitl:	**Cwblhau Ffordd Stad Nant Seilo, Penrhyncoch o dan y Côd ar gyfer Gwaith Stryd Preifat**
Pwrpas yr adroddiad:	**I benderfynu paratoi/ cwblhau stryd breifat o dan y Côd ar gyfer Gwaith Stryd Preifat**
Er:	**Penderfyniad**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Keith Henson, yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon

Adeiladwyd ffordd wreiddiol yr ystâd yng nghanol y 1970au, fodd bynnag, ni chafodd ffordd yr ystâd ei mabwysiadu (gweler Cynllun yn Atodiad A sy'n dangos y ffordd sydd heb ei mabwysiadu) am nad oedd y rhan honno o'r ffordd wedi ei chynnig gan y datblygwr i'w mabwysiadu.

Nid oes dogfennau, manylion bond na Chytundeb Adran 38 o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 yn bodoli ac mae ffordd yr ystâd wedi mynd ar ei gwaeth.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi llwyddo gyda chais i Lywodraeth Cymru, drwy gynllun sy'n cael ei dreialu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ariannu'r gwaith o wella/mabwysiadu ffyrdd ledled Cymru sydd heb eu mabwysiadu. Y nod yw bod hwn yn ysgwyddo 75% o'r costau sydd ynghlwm â gwella ac yna mabwysiadu ffordd yr ystâd. Bydd y 25% sy'n weddill yn cael ei ariannu gan y trigolion fydd yn elwa o'r mabwysiadu.

Dyma'r un broses â'r un lle cafodd ffordd ystâd Bryn Hafod, Aberteifi ei chwblhau a'i mabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion yn 2022. Heb arian Llywodraeth Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, byddai disgwyl i'r trigolion ariannu bron y cyfan o'r gost.

Roedd ffurflen ddeiseb - wedi'i llofnodi gan bob un o'r 11 o drigolion - wedi dod i law'r Cyngor ar 08/08/2024 yn nodi yr hoffent i broses y Côd ar gyfer Gwaith Stryd Preifat fynd rhagddi i weld beth fyddai'r gost o ddod â ffordd yr ystâd i fyny i safon fel y gellir ei mabwysiadu. Galluogwyd hyn gan y Cynghorydd Caryl Roberts.

Archwiliwyd cyflwr ffordd yr ystâd ac amcangyfrifwyd y gost. Ym mis Hydref 2024, cyfrifwyd rhaniadau'r costau yn unol â'r buddion a nodir yng nghanllawiau'r Côd ac yn seiliedig ar hyd blaen yr eiddo, a'u darparu i bob preswylydd. Ar y cyd â manylion y dosraniadau, darparwyd ffurflen fel y gellid ystyried unrhyw anghytundeb ynghylch y gost amcangyfrifedig yn ogystal â chadarnhau yn annibynnol gydsyniad pob preswylydd i broses y Côd ar gyfer mabwysiadu ac i'r ffaith y byddent yn dod yn atebol am y costau ar ôl cwblhau.

Cafwyd ymateb gan bob preswylydd erbyn y dyddiad cau diwygiedig sef 02/01/2025 (ymestynnwyd y dyddiad cau cyntaf sef 20/11/24) ac yn dilyn proses wirio, anfonwyd llythyr ar 30/12/2024 yn hysbysu pob preswylydd fod penderfyniad mwyafrifol wedi ei wneud gan yr ystâd i fwrw ymlaen â phroses y Côd ar gyfer Gwaith Stryd Preifat.

Gofynnir felly am gymeradwyaeth y Cabinet i lefelu, palmentu, metelu, fflagio a sianelu Nant Seilo, Penrhyncoch, a darparu carthffos iddi, o dan ddarpariaeth y Côd ar gyfer Gwaith Stryd Preifat o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 (rhannau 205-218 a 228). Wrth wneud hynny, dylai'r treuliau a ysgwyddir gan yr Awdurdod wrth ymgymryd â'r gwaith gael ei ddyrannu rhwng y tai sy'n wynebu'r stryd a'r rheiny sy'n cael budd o'r stryd, yn unol â'r Côd Canllaw ar gyfer Gwaith Stryd Preifat a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 15 Gorffennaf 2003 (Atodiad C). Caiff hyd a lled y ffordd yr ystyrir ei mabwysiadu ei ddangos yn y cynllun yn Atodiad A.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Naddo. Nid yw'r papur yn fater o newid polisi neu wasanaeth.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor: Ddim yn berthnasol
Cydweithio: Ddim yn berthnasol
Cynnwys: Ddim yn berthnasol
Atal: Ddim yn berthnasol
Integreiddio: Ddim yn berthnasol

Argymhelliad / Argymhellion:
ARGYMHELLIR BOD y Cabinet yn:
cytuno i awdurdodi swyddogion i wneud y gwaith angenrheidiol i gwblhau ffordd y stad yn Nant Seilo.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
- **Gwella diogelwch y ffordd a lles y trigolion.**
- **Fel y gall yr Awdurdod Priffyrdd Lleol ei mabwysiadu gan ddefnyddio'r Côd ar gyfer Gwaith Stryd Preifat.**

Trosolwg a Chraffu:
Ddim yn berthnasol

Fframwaith Polisi:
Strategaeth Gorfforaethol 2022- 2027

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth.
Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd.

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
100% o'r costau i'w ariannu gan grant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Llywodraeth Cymru (75%) a chyfraniad y trigolion (25%).

Goblygiadau cyfreithiol:
Ddim yn berthnasol

Goblygiadau staffio:
Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:
Bydd ffordd yr ystâd yn cael ei chynnal a'i chadw ar gost y cyhoedd ar ôl i'r broses ddod i ben.

Risg(iau):
Ddim yn berthnasol

Pwerau Statudol:
Deddf Priffyrdd 1980 - adrannau 205 i 218, ac adran 228

Papurau Cefndir:
Ddim yn berthnasol

Atodiadau:
Atodiad A – Cynllun yn dangos hyd a lled y ffordd yr ystyrir ei mabwysiadu (ffordd heb ei mabwysiadu)
Atodiad B – Ffotograffau cyn cyflawni'r cynllun
Atodiad C – Côd Canllaw Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Gwaith Stryd Preifat, 2003

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Swyddog Adrodd:
Steve Hallows, Rheolwr Gwasanaeth: Datblygu Priffyrdd

Dyddiad:
24 Rhagfyr 2024

ATODIAD A – CYNLLUN YN DANGOS HYD A LLED Y FFORDD YR YSTYRIR EI MABWYSIADU YN NANT SEILO, PENRHYNCOCH



<u>ATODIAD B</u> – Ffotograffau Nant Seilo, Penrhyncoch (CYN CYFLAWNI'R CYNLLUN)

Cyngor Sir Ceredigion

Pwyllgor Priffyrdd

Côd Canllaw – Gwaith Stryd Preifat

Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer paratoi strydoedd preifat yn cael ei chynnwys yn Adrannau 205 i 218 o Ddeddf Priffyrdd 1980. (mae'r darnau ynghlwm)

Paratowyd y Canllawiau canlynol i'w defnyddio yng Ngheredigion lle mae'r Cyngor Sir yn gweithredu fel Awdurdod Gwaith Stryd:-

Cychwyn Gwaith Stryd Preifat

Er bod yr Awdurdod Gwaith Stryd yn gallu cyflawni'r drefn o baratoi stryd breifat, fel arfer ni fydd strydoedd o'r fath yn cael eu hystyried ar gyfer eu paratoi oni bai:-

1. Bod o leiaf 75% wedi'i ddatblygu ar y ddwy ochr.

2. Bod naill ai mwyafrif o berchnogion y tai sy'n wynebu'r ffordd, neu berchnogion mwyafrif y tir sy'n wynebu'r ffordd (y ffrynt) wedi mynegi'n ysgrifenedig eu dymuniad i baratoi'r stryd fel ei bod yn cyrraedd y safon ar gyfer mabwysiadu.

Lled y Stryd a'i Hadeiladwaith

Lle bynnag y bo modd, dylai lled ac adeiladwaith y stryd a baratoir, ynghyd â'r lleiniau gweledegd, gydymffurfio â'r safonau a nodir yng Nghanllaw Dylunio'r Cyngor Sir ar gyfer Ffyrdd Preswyl.

Er y dylid gwneud pob ymdrech, gan gynnwys caffael tir, i sicrhau bod y safonau'n cael eu cyflawni, cydnabyddir na fydd hynny'n bosib mewn rhai achosion. Os hynny, dylid ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Priffyrdd, Eiddo a Gwaith i weld a fyddai safonau is yn dderbyniol o dan yr amgylchiadau.

Y Dull o Ddyrannu Taliadau

Yn 1974, ar ôl adolygu'r apeliadau yn erbyn taliadau, awgrymodd yr Adran Drafnidiaeth y dylai Awdurdodau ystyried hyd a lled y budd a ddaw o'r gwaith wrth ddyrannu taliadau, a hefyd ystyried y canlynol:-

(i) A oes mynediad i gerddwyr neu gerbydau.
(ii) Hyd cymharol blaen y tai - y ffryntiau.
(iii) Y defnydd a wneir o'r eiddo a datblygiadau arfaethedig.
(iv) Oedran yr eiddo.
(v) A yw'r darn sy'n ffinio â'r stryd y tu cefn neu i'r ochr, heb fynediad neu heb fod angen mynediad, i gerbydau neu gerddwyr.
(vi) Y budd a ddaw i dai neu fannau sydd â mynediad i'r stryd ond heb ffrynt ar y stryd.

Mae'r Canllaw yn ystyried y ffactorau hyn ond deellir y byddai'n amhosib, i bob pwrpas, gosod dull o ddyrannu a fyddai'n gallu cael ei weithredu ym

mhob achos. Serch hynny, dylai fod yn berthnasol yn y rhan fwyaf o achosion a fydd yn codi yn ymarferol. Os bernir bod angen amrywio, dylid yn y lle cyntaf gyfeirio'r achos at y Cyfarwyddwr Priffyrdd, Eiddo a Gwaith i benderfynu yn ei gylch. Dylid cydnabod, wrth ryddhau un eiddo, y gellir gosod cyfrifoldeb ariannol ychwanegol ar eraill.

Graddfeydd y System Buddion

Elfen y Ffrynt

Dylai 51% o'r gost a ddyrennir gael ei godi ar sail ffrynt yr eiddo. Bydd ffryntiadau sy'n ffinio â strydoedd mabwysiedig yn cael eu dyrannu i'r Awdurdod Priffyrdd.

Yn achos ffryntiadau i'r ochr neu'r tu cefn, gwneir cyfraniad o 50% o dan Adran 236(2) o Ddeddf Priffyrdd 1980 hyd at ffrynt o 40 metr. Codir am unrhyw dir y tu hwnt i hynny ar y gyfradd lawn.

Ystyrir na ddylid gwneud cyfraniad o dan Adran 236 oni bai am i 'ffryntwyr' sydd ag ochr a chefn yn ffinio, ac i safleoedd *extra commercium.* Cydnabyddir y gall amgylchiadau esgusodol godi lle allai'r Cyngor Sir ystyried cyfraniad o'r fath. Fodd bynnag, byddai achosion o'r fath yn anghyffredin a byddai'n rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Sir ymlaen llaw bob tro.

Elfen y Budd a geir

Dylai 49% o'r gost a ddyrennir gael ei godi ar sail graddfa'r budd a geir, gan ddefnyddio system bwyntiau. Er ei bod yn anodd cwmpasu pob sefyllfa, dylai cyfanswm y pwyntiau a roddir i bob eiddo sy'n cael budd o'r gwaith o baratoi'r stryd gael ei gyfrifo ar sail y penawdau canlynol:

Disgrifiad	Pwyntiau a ddyrennir	Sylwadau
1. **Pob Plot**		
(i) Plot sy'n cynnwys adeilad domestig parhaol.	4	
(ii) Plot â chaniatâd cynllunio ar gyfer adeilad domestig parhaol.	4	
(iii) Plot heb ganiatâd cynllunio ond bod y swyddog cynllunio perthnasol o'r farn y byddai'n cael caniatâd.	3	Os bydd perchennog plot yn dymuno, gellir dyrannu ar sail ffrynt sydd heb ei datblygu a bod y balans yn cael ei dal ar gyfer y plot hyd nes y rhoddir caniatâd.
(iv) Plot sy'n cynnwys fflatiau domestig un ystafell *(bedsit)* parhaol.	3 am bob fflat 2 am bob	

	bedsit	
(v) Garejys ar wahân i gwrtil yr eiddo (yn cynnwys mynediad).	2 am bob lle car	
(vi) Plot sy'n cynnwys annedd dros dro.	3	
(vii) Plotiau masnachol, diwydiannol neu broffesiynol, ac Ysgolion:- Dwbl (i), (ii) neu (iii) + pwyntiau ychwanegol o dan adrannau dilynol.	Amrywio	
2. **<u>Mynediad</u>**		
(i) Am bob eiddo domestig sydd â mynediad i gerbydau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sy'n arwain i'r stryd.	2	
(ii) Am bob eiddo masnachol/diwydiannol, cymunedol neu broffesiynol sydd â mynediad i gerbydau, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sy'n arwain i'r stryd.	4 Am bob mynediad	
(iii) Mynediad i gerddwyr - domestig.	1	I'w ddyrannu dim ond os nad oes mynediad i gerbydau.
(iv) Mynediad i gerddwyr - masnachol/diwydiannol.	2 Am bob mynediad	
3. **<u>Oedran yr Adeiladau</u>** (i) Adeiladau 50-99 mlwydd oed.	-1	Am bob adeilad neu grŵp o adeiladau o fewn yr un cwrtil.
(ii) Adeiladau 100 mlwydd oed a hŷn.	-2	

Disgrifiad	Pwyntiau a ddyrennir	Sylwadau
4. **<u>Adeiladau Cymunedol</u>**		
(i) Tai Gwarchod, 1 am bob aelod o staff dydd + 2 am bob annedd.	Amrywio	
(ii) Tai i'r Henoed, ac ati + 1 am bob 4 gwely.	Amrywio	
(iii) Ysbytai, 1 am bob aelod o staff ar		

shifft ddydd + 1 am bob 2 wely. (iv) Canolfannau Iechyd, 1 am bob aelod o staff dydd + 2 am bob ymarferydd meddygol. (v) Llyfrgelloedd, 1 am bob aelod o staff + 1 am bob 30m^2 o ofod llyfrgell. (vi) Mannau Addoli, 1 am bob 10 sedd/clustog benlinio. (vii) Neuaddau Cymunedol (anfasnachol), 1 am bob 8m^2 llawr.	Amrywio Amrywio Amrywio Amrywio Amrywio	Os bernir eu bod yn ofynnol o dan y gyfraith, caiff safleoedd o'r fath eu heithrio o'r taliadau. Byddant yn cael eu hysgwyddo gan yr Awdurdod Gwaith Stryd.
(viii) Ysgolion a Cholegau: (a) Cynradd, 2 am bob ystafell ddosbarth. (b) Uwchradd, 2 am bob ystafell ddosbarth + 1 am bob 10 yn y chweched dosbarth. (c) Colegau, 2 am bob ystafell ddosbarth + 1 am bob 5 myfyriwr llawn-amser + 1 am bob 10 myfyriwr rhan-amser yn ystod y dydd. 5. **Safleoedd Diwydiannol, Masnachol a Phoffesiynol** Y dyraniadau pwyntiau o dan 1 (Pob Plot) a 2 (Mynediad) uchod ynghyd ag 1 pwynt am bob 3 ymweliad car a 3 phwynt ar gyfer uchafswm yr ymweliadau gan Gerbydau Nwyddau Trwm â'r safle ar ddiwrnod gwaith.	Amrywio Amrywio Amrywio Amrywio	Caiff Neuaddau Ymgynnull eu sgorio â phwyntiau dim ond os ydynt yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd dosbarth. Hyd yn oed os mai yn anfynych y mae Cerbydau Trwm yn ymweld, y dyraniad lleiaf ar gyfer cerbydau o'r fath yw 3 phwynt.

NODIADAU: Mewn achosion lle cyfrifir pwyntiau mewn ffracsiynau, dylid talgrynnu pwyntiau tuag i fyny ar gyfer ffracsiynau sy'n uwch na ½ a'u talgrynnu tuag i lawr os ydynt o dan ½.

Mae cyfanswm pwyntiau negyddol yn cyfrif fel dim.

Yn achos ffryntiadau i'r ochr neu'r tu cefn, gwneir cyfraniad o 50% o dan Adran 236(2) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ar y pwyntiau a ddyrennir yn Adran 1 a 3 uchod.

Cytunwyd gan Gabinet y Cyngor dyddiedig 15fed o Orffennaf 2003.

Llofnodwyd gan:-.....

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Peirianneg